Stori Harriet

Pan ymunodd Harriet â chlwb ieuenctid roedd hi bob amser yn gwrtais ac yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig gan y rhaglen. Yn ystod gweithdy gwrth-fwlio a gynhaliwyd gan yr heddlu fel rhan o sesiwn yn y clwb ieuenctid aeth Harriet, a oedd yn 14 oed ar y pryd, i stad ofidus iawn. Er ei bod hi bob amser wedi bod yn ferch fach dawel a swil gallem weld fod rhywbeth yn ei phoeni.

Roedd y noson honno yn allweddol i ddyfodol Harriet. Daeth Harriet o hyd i'r cryfder a'r hyder i ddweud wrthym (gweithwyr ieuenctid, ei rhieni a'i chwaer) fod popeth wedi troi'n hunllef ers iddi ddechau ym mlwyddyn 7 yn yr ysgol dros dair blynedd ynghynt. Roedd hi'n cael ei bwlio yn yr ysgol, byddai'r un grŵp o bobl ifanc byth a beunydd yn dod o hyd i ryw ffordd o bigo arni, chwerthin arni neu ledu clecs amdani, a byddai'r galw enwau a'r ymddygiad erchyll yn treiddio'n ddyfnach i'w chalon.

Teimlai fel pe na fyddai neb yn ei deall, byddai hi bob amser yn crio ar ei phen ei hun. Perodd y teimladau anodd, yr atgofion poenus a'r sefyllfaoedd a oedd yn ddigon i'w llethu i Harriet geisio cymryd rheolaeth dros ei bywyd, a dechreuodd ar yr arfer dinistriol o'i niweidio ei hun... ei ffordd hi o geisio newid y modd yr oedd hi'n teimlo y tu mewn.

Cymerodd dros flwyddyn i Harriet rannu ei theimladau o fod allan o reolaeth a'i hofnau a brofodd oherwydd yr holl fwlio. Unwaith iddi siarad â'i chwaer hŷn, ei rhieni a'r gweithwyr y noson honno yn y clwb ieuenctid, gydag amser, deallltwriaeth a chlust i wrando arni, dechreuodd Harriet ar daith o geisio dygymod â'i bywyd gystal ag y gallai. Nid oeddem yn gwybod pa mor hir fyddai hyn yn ei gymryd neu a fyddai hi byth yn cyrraedd ei nod, ond roedd un peth yn sicr - wnaeth hi fyth roi'r ffidil yn y to ac roeddem ni i gyd y tu ôl iddi yn ei chefnogi.

Ar ôl misoedd o siomedigaethau a rhestrau aros hir gan y gweithwyr meddygol proffesiynol a myneddiad at wasanaethau arbenigol, roedd yn adeg anodd i Harriet. Mae'n cymryd amser i feithrin perthynas ac i newid ddigwydd. Gyda chefnogaeth gan y rheiny a ofalai amdani a'r gofal a'r gefnogaeth gan ei chwaer fawr, roedd y cyfnodau anodd yn parhau ond roeddent yn digwydd yn llai aml. Yn y diwedd cafodd gymorth meddygol priodol. Roedd y negeseuon testun a anfonai at ei chwaer yn yr ystafell arall yn dweud 'Mae angen cwtsh arna i' yn dal i fod yn dorcalonnus, ond o leiaf roeddem i gyd yn gwybod bod y torri a'r hunan-niweidio yn dechrau mynd yn rhywbeth oedd yn perthyn i'r gorffennol.

Nawr ei bod hi'n 16 oed mae Harriet wedi dangos ei bod hi'n un o'r bobl ifanc gryfaf yr wyf yn eu hadnabod ac i mi gael y fraint o weithio gyda nhw. Mae hi wedi dangos penderfyniad a'r fath gryfder i weddnewid ei bywyd. Wrth iddi dyfu'n hŷn mae hi wedi dysgu cofio ei bod hi'n gallu gwneud llawer o bethau ac na fydd unrhyw beth yn ei hatal bellach, beth bynnag fydd neb arall yn ei ddweud.

Nid yn unig y mae Harriet wedi goresgyn ei hanawsterau personol, mae hi hefyd wedi dod i ymwneud â Chyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Gydag ychydig anogaeth a pheth cefnogaeth dysgodd Harriet gyfrif ei rhinweddau, sydd wedi ei helpu i adeiladu ei hunan-barch a'i hyder, er gwaethaf ei sefyllfa yn y gorffennol. Mae hi newydd sefyll ei harholiadau TGAU, cael swydd ran-amser ac mae hi'n edrych ymlaen at ddyfodol disglair.... Rhywbeth a oedd yn ymddangos yn bell iawn rai misoedd yn ôl..